# Trefnydd Gwybodaeth TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc (2.4.2)



Mae rhai newidiadau yng Nghymru sydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt. Maent yn cynnwys safonau byw cyfredol, oedran mamol, strwythur teuluol, llygredd, cyflogaeth/diweithdra ac amlddiwylliannaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sydd â'r nod o wella gofal a chymorth i genedlaethau'r dyfodol, ynghyd â 'Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Y ddeddfwriaeth a'r cynllun hyn yw'r prif ardaloedd sy'n gallu effeithio ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.

Mae natur gofal plant yn newid yng Nghymru ac mae hyn yn cael effaith ar gymorth gofal plant a hefyd newidiadau cyfredol. Er enghraifft, cynyddu darpariaeth Dechrau'n Deg, 30 awr o ofal plant am ddim a strategaethau Cymraeg. Mae newidiadau staffio yn cael goblygiadau ar y sector, ystyr goblygiadau yw y gall rhywbeth ddigwydd mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, gall cynyddu darpariaeth Dechrau'n Deg arwain at fwy o gyfleoedd ehangach ond mwy o straen/cyfrifoldeb ar y gweithlu.

Mae yna rhai polisïau cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal plant hefyd. Mae'n bwysig sylweddoli bod yn rhaid cynnig y 'Cynnig Rhagweithiol'. Er enghraifft, mae gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i siarad yn eu hiaith eu hunain ac ni ddylent orfod gofyn am hyn.

Mae sawl 'egwyddor' hefyd mae cynllun 'Cymru Iachach' yn eu nodi i lywio newid cadarnhaol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Dyma acronym defnyddiol i gofio rhai o'r rhain: 'DAWYMAT'.

D - DIOGELWCH
A - ANNIBYNIAETH
W - WEDI'I BERSONOLI
Y - YN SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH
M - MESURADWY
A - ATAL
T - TRAWSNEWIDIOL




Mae gan fenter 'Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' nod pedwarplyg.

Gweithlu iechyd a gofal plant brwd a chynaliadwy.

Gwasanaethau hygyrch o safon, mae hyn yn gysylltiedig â 'darparu gwasanaethau Cymraeg yn eich lleoliad'.

Mae gwerth yn uwch yn y sectorau.

Gwella 'llesiant' y boblogaeth.

Yr uchod yw'r pedwar nod – fodd bynnag, dylid gwerthuso'r nodau hyn ac ystyried a yw'r nodau hyn yn gwneud Cymru yn lle iachach.